

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	22 Mehefin 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cynnig creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion

Y RHESWM Y MAE

CRAFFU WEDI GOFYN AM

Y WYBODAETH: Ddim yn berthnasol

CEFNDIR:

Paratowyd strategaeth rheoli gwastraff diweddaraf y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2018 a'r Strategaeth hon sydd wedi bod yn sail i waith y gwasanaeth rheoli gwastraff ers hynny.

Mae angen strategaeth newydd yn awr i amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol, gan roi sylw penodol i safleoedd gwastraff cartref y sir, y model nesaf ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd a'r trefniadau ar gyfer gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

Mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth ystyried opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol yn gymhleth ac mae'r gwasanaeth rheoli gwastraff felly wrthi'n caffael cymorth gan ymgynghorwyr i arwain adolygiad eang o'r gwasanaeth.

Ystyrir mai'r gwasanaeth gwastraff yw un o wasanaethau pwysicaf a phroffil uchel y Cyngor i nifer o randdeiliaid a gall unrhyw newidiadau fod yn heriol ac yn ddadleuol. Mae'n bwysig felly i ni gytuno, o'r cychwyn cyntaf, sut y caiff yr adolygiad o'r gwasanaeth ei reoli a'i gyfathrebu o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau proses hwylus wrth wneud penderfyniadau.

Trafodwyd sgôp arfaethedig yr adolygiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022. Yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth Gwastraff yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor drwy gydol y broses o adolygu'r gwasanaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r gwaith o gaffael gwasanaethau'r ymgynghorwyr wedi dechrau a bydd y swyddogion mewn sefyllfa yn fuan i ddyfarnu'r contract. Felly, ystyrir ei bod yn briodol yn awr i gytuno ar y ffordd orau o gynnwys yr Aelodau yn y prosiect fel y gallant

dderbyn diweddariadau rheolaidd oddi wrth y swyddogion ynglŷn â'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio a'r cynigion sy'n cael eu hystyried.

Cynigir felly y dylid creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion. Byddai'r gweithgor hwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar adegau priodol. Gofynnir i'r Pwyllgor felly gymeradwyo'r canlynol:

- (i) creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i gynorthwyo â'r broses o ddod ag opsiynau rhesymol gerbron y system ddemocrataidd
- (ii) enwebu 5 Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Gweithgor gan sicrhau bod gan y grŵp gydbwysedd gwleidyddol a rhaniad trefol/gwledig priodol.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith
Integredig?
Os naddo, nodwch pam Naddo
Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLIAD: Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Er mwyn creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion

Enw Cyswllt: Gerwyn Jones / Beverley Hodgett
Swydd: Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Amgylcheddol /
Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd Lleol
Dyddiad yr adroddiad: 22 Mehefin 2023